

Targed 1 – Mae angen selio gwerthusiadau a chasgliadau ar ystod ehangach o lenyddiaeth er mwyn eu cryfhau a'u datblygu ymhellach.

Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn – I geisio datblygu targed 1 rwyf wedi ceisio selio gwerthusiadau a chasgliadau ar ystod ehangach o lenyddiaeth.

Targed 2 – Er mwyn bodloni gofynion y PDP dylech anelu at wella'r broses o integreiddio cysyniadau damcaniaethol â chymhwysiad ymarferol eich profiadau addysgu.

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth.

Cyfrif geiriau: 2663

Rhagarweiniad

Yn ystod y traethawd, byddaf yn adfyfrio'n feirniadol ar flaenoriaeth o Gynllun Datblygu Adran (CDA) Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ysgol A. Blaenoriaeth a dewisais yw gwella medru llythrennedd. Dewisais y flaenoriaeth yma ar gyfer fy natblygiad proffesiynol fy hun oherwydd dyma un o'r tri maes cyffredin wrth edrych ar Gynllun Datblygu Ysgolion (CDY) yn y 21 ganrif (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae llythrennedd yn faes eang byddaf yn ffocysu'n benodol ar ysgrifennu estynedig. Byddaf yn cyfeirio at yr ysgol fel Ysgol A trwy gydol y traethawd er mwyn dilyn canllawiau anhysbysrwydd BERA (2018). Ar ôl i mi drafod yn gyffredinol beth yw CDY, byddai'n symud ymlaen i roi amlinelliad o'r llenyddiaeth sy'n sôn am wella llythrennedd. Nesaf, byddaf yn canolbwyntio ar CDA Ysgol A mewn dyfnder gan werthuso'n gritigol cyn adfyfrio a'r camau gweithredu'r ysgol wrth gysylltu gyda theori a damcaniaethau.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg A yn darparu addysg i tua 800 o ddisgyblion 11-18 oed yn Ne Cymru (Estyn, 2019). Mae'r ysgol yn cynnwys 30.2% o'i ddisgyblion o ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru, gyda 10.6% ohonynt yn gymwys i brydau ysgol am ddim. Tua 10% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn eu cartrefi ac mae'r rhan fwyaf yn rhugl yn y Gymraeg.

Adolygiad Llenyddiaeth

Yn unol â nodau Cwricwlwm i Gymru (CiG), newidiodd Llywodraeth Cymru (2022) y canllawiau gwella ysgolion yn 2022. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2022) mae cynllun datblygu ysgol yn gynllun mae'r ysgol yn creu er mwyn datblygu trefniadau atebolrwydd, gwerthuso a gwella ar gyfer ysgolion, consortia rhanbarthol ac Estyn. Diben cyffredinol gwella ysgolion yw cyfrannu at bedwar diben y cwricwlwm a helpu ysgolion rhoi'r profiadau dysgu gorau i ddysgwyr beth bynnag yw eu cefndir (Llywodraeth Cymru, 2022). Yn debyg, mae Chang (2008) yn disgrifio cynllun strategol fel dogfen ddeinamig sy'n cynnwys cyfarwydddebau polisi, strategaethau gweithredu, camau gweithredu a meincnodau. Mae'n gweithredu fel strategaeth ar gyfer yr ysgol, gan arwain dadansoddiad o faterion strategol, blaenoriaethu, cynllunio a gweithredu i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn addysg o ansawdd. Mae'r ddogfen fyw hon yn caniatáu ar gyfer addasiadau yn ystod y gweithredu ac mae'n integreiddio'n ddi-dor ag adroddiadau hunanwerthuso ysgolion. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2022) blaenoriaeth CDY yw cyrhaeddiad a lles pob dysgwr gan fod yn allweddol ym mhob gwerthusiad ysgol. Mae Chukwumah (2015) yn adnabod y pwysigrwydd o CDY gan ei fod yn pennu llwyddiant neu fethiant yr ysgol. Gall cynllun o'r fath arwain at effeithiolrwydd, gwelliant a datblygiad ysgol pan gaiff ei weithredu'n briodol. Bydd y prosesau sy'n rhan o'r broses o greu CDY yn cael ei thrafod ymhellach yn y traethawd hwn.

Yn ôl Education Endowment Foundation (EEF), mae llythrennedd yn sgil allweddol sy'n cael ei ddatblygu trwy'r ysgolion gyfan gan fod *"literacy is key to academic success across the curriculum and is more important than ever as curriculum reforms place new demands on students and teachers"* (EEF, 2019, t, 2). Maent yn adnabod yn gyffredinol bod llythrennedd yn allweddol i ddysgu ar draws pob pwnc yn yr ysgol uwchradd ac yn rhagfynegiad cryf o ganlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd plant (EEF, 2019). Cytuna Graham a Perin (2007) bod llythrennedd yn sgil sy'n cael ei ddefnyddio fel strategaethau i gyflawni amrywiaeth o nodau. Mae'n gweithredu fel arf ar gyfer dysgu deunydd pwnc. Er ni fydd un dull unigol o ysgrifennu cyfarwyddyd yn bodloni anghenion pob myfyriwr.

Adnbydda Llywodraeth Cymru (2014) y cysylltiad cryf rhwng datblygiad sgiliau llythrennedd a llwyddiant plentyn yn yr ysgol a'i allu i ymuno a'r gweithlu. Cyhoeddodd cynllun dwy flynedd (2020-2022) i wella'r gefnogaeth a roddir i ddatblygiad lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu plant rhwng 0 a 4 blwydd 11 mis oed (Ymchwil y Senedd, 2021). Mae gwella llythrennedd disgyblion wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ers i'r Gweinidog Addysg ar y pryd ddisgrifio canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn 2009 (Ymchwil y Senedd, 2021). Er mwyn atgyfnerthu hyn cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen llythrennedd yn 2013, gyda'r nod o godi'r safon ynghylch cyrhaeddiad disgyblion mewn llythrennedd (Ymchwil y Senedd, 2021). Dangosa Ymchwil y Senedd (2021) mae llythrennedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y CiG, gan ei fod yn cynnwys yn un o dri sgil trawsgwricwlaidd statudol. Allwn weld llwyddiant i fwriadau Llywodraeth Cymru gan fod adroddiad blynyddol diweddaraf gan Estyn, yr arolygiaeth addysg, sy'n awgrymu, bod ysgolion yn gyffredinol wedi llwyddo i gefnogi llythrennedd plant a phobl ifanc (Ymchwil y Senedd, 2023).

Yn ychwanegol i hyn, mae "addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd" (Llywodraeth Cymru, 2017, t.21). Mae cynyddu defnydd sgiliau da o lythrennedd yn allweddol yw cynyddu ystadegau llythrennedd mewn ysgolion, er mwyn i Lywodraeth Cymru cyrraedd ei nod o fil o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae dwy ffurf wahanol o wella llythrennedd yn ôl EEF (2019). Mae llythrennedd maes cynnwys yn canolbwyntio ar sgiliau y gellir eu defnyddio i helpu myfyrwyr i ddysgu o destunau pwnc penodol (Shanahan & Shanahan, 2012). Ond, mewn cyferbyniad mae rhai fel Shanahan & Shanahan (2012) yn adnabod llythrennedd disgyblaethol yn ddull gwell er mwyn wella llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Pwysleisia llythrennedd disgyblaethol pwysigrwydd cymorth pwnc penodol gan ei fod yn credu bydd addysgu llythrennedd disgyblaethol yn darparu manteision dysgu i fyfyrwyr uwchradd. Rheswm am hynny yw bod

llythrennedd disgyblaethol yn anelu at adeiladu ar y rhagdybiaeth bod gan bob pwnc ei iaith unigryw ei hun, ffyrdd o wybod, gwneud a chyfathrebu (EEF, 2019). Yn ychwanegol i hyn, adnabyddas bod angen sicrhau mae myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i gyrchu iaith academaidd mewn gwahanol bynciau.

Datblygu Pwynt Gweithredu

Mae'r CDA Ysgol A wedi deillio o'r CDY Ysgol A. Mae'r adran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn defnyddio ar CDY, yn enwedig ei flaenoriaethau er mwyn cadw'r cysondeb rhyngddyn nhw. Ni fydd yn llwyddiannus os oedd blaenoriaethau'r ysgol yn gwbl wahanol i'r adran gan na fydd yr amcanion, y strategaethau, a'r mentrau ar y ddwy lefel yn ategu ei gilydd. Wrth gadw'r cysondeb byddent yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau, gwell cydgysylltu ymhlith rhanddeiliad, ac yn y pen draw, canlyniadau mwy effeithiol o ran cyflawniad myfyrwyr a llwyddiant sefydliadol.

Y man cychwyn ar gyfer yr holl werthuso a gwella yw hunanfarnu effeithiol. Yn ei hunanwerthuso, edrychon ar ei arfarniad o flwyddyn ddiwethaf i weld cryfderau'r adran gan hefyd cymharu gyda blaenoriaethau CDY. Dangosa beth allwn wella arno sy'n galluogi cyfraniad at wella'r system gyfan. Mae Llywodraeth Cymru (2022) yn pwysleisio sut mae hunanfarnu yn arwain at gynllunio gwelliant sy'n cefnogi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i bob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Hunanwerthuso cadarn yn dilyn canllawiau gwella ysgolion Llywodraeth Cymru (2022) wrth wraidd y trefniadau newydd. Fel awgrymodd Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) cafwyd Ysgol A deialog broffesiynol rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, chonsortia rhanbarthol er mwyn cytuno ar flaenoriaethau gwella a chymorth i ysgolion yn ei hunanwerthuso. O ganlyniad bydd yr adran yn gweld hunanwerthuso fel dull o wella'r adran yn unigol ond hefyd yr system ysgolion ehangach. Er hyn, ni defnyddir yr adran rhanddeiliaid ym mhob gam wrth iddyn nhw creu CDA sy'n cael ei nodi gan Llywodraeth Cymru (2014) fel rhan allweddol trwy gydol cynllunio. Yn ogystal, mae'r proses yma yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn y pen draw.

Rhan fwyaf o amser defnyddir Ysgol A rhanddeiliaid allanol ond mae'r proses hefyd yn cynnwys, aelodau'r o'r uwch dîm, aelodau o'r adran, cydlynnydd penodol a thîm ymchwil yr ysgol. O ddefnyddio llawer o randdeiliaid maent yn arwain at ddealltwriaeth gyfannol wrth weithredu strategaethau'r cynllun. Gan gynnwys llawer o randdeiliaid mae'n hyrwyddo cynhwysiant a chydweithio sy'n arwain at CDA cryf (Estyn, 2017). Mae hyn hefyd yn cydfynd gyda damcaniaeth Bronfenbrenner (1979) sef damcaniaeth Systemau Ecolegol am Ddatblygiad sy'n cysylltu dylanwadau gwahanol ar ddatblygiad plentyn. Mae'r damcaniaeth

yma yn dilyn pwysigrwydd polisi Estyn (2020) sy'n dangos yn glir fod ymgysylltu rhieni yn gryf o ran gwella perfformiad addysgwyr. Yn ogystal maent yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru gan fod y ddau ohonynt yn awgrymu dylid ysgolion cynnwys y dysgwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach yn enwedig a'u hystyried yn y broses hunanfarnu. Mae ymgysylltiad rhieni, dysgwyr ag ysgolion wedi'i leoli o fewn y system ficro, sef yr amgylchedd lle mae unigolyn yn rhyngweithio'n uniongyrchol (Bronfenbrenner, 1979).

Ymhlith a'r adran hunanfarnu, ffactor arall defnyddiodd er mwyn pennu ar eu blaenoriaethau adrannol oedd dadansoddi data. Mae pwysigrwydd cyffredinol gan Lywodraeth Cymru (2014) ar berfformiad dysgwyr unigol ar adeg benodol mewn amser sef un ffordd o gasglu data. O ddefnyddio data mae'n galluogi'r ysgol a'r adran i wneud penderfyniadau gwybodus sydd wedi ei seiliedig ar dystiolaeth yn lle rhagdybiaethau. Felly, o ddata a hunanfarnu penderfynodd ar dair blaenoriaeth ac un oedd llythrennedd fel y dywed yn gynharach. Y data defnyddir er mwyn pennu'r flaenoriaeth llythrennedd oedd oedrannau darllen, canlyniadau PISA ag adborth adrannau ar dasgau ysgrifennu estynedig. Mae sgiliau llythrennedd is yn gallu cael ei weld yn glir yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig gan fod blwch cyrhaeddiad yn fawr (Mortimore, 2020).

"A 2022 report found that 'considerably more' children from ethnic minority and disadvantaged backgrounds missed out on formal early learning in 2020 and 2021, with practitioners expressing concerns about a widening development gap" (National Literacy Trust, dim dyddiad).

Daeth cynyddu sgiliau llythrennedd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ar ôl canlyniadau PISA 2009 ac mae'r flaenoriaeth wedi parhau i'r CiG (Ymchwil y Senedd, 2021). Dengys canlyniadau PISA am sgiliau darllen dysgwyr 466 oedd y sgôr gyfartalog yng Nghymru o ran darllen ar gyfer PISA yn 2022. Roedd hyn yn sylweddol is na sgôr gyfartalog yr *OECD*, sef 476 (Llywodraeth Cymru, 2023).

Nesaf, cynlluniodd Ysgol A yn strategol er mwyn darganfod ei tharged am y flaenoriaeth llythrennedd. Wnaethon nhw sef yr aelodau'r adran, creu meini prawf llwyddiant (MPLL) a defnyddir er mwyn barnu a yw'r targed wedi'i gyflawni yn llwyddiannus (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). Nododd yn eu CDA fyddent eisiau gweld bod y targed yma wedi gwella erbyn diwedd y flwyddyn ysgol. Ni fydd y flaenoriaeth yn costio dim ond am amser ymchwilio ac ymarfer. Mae'r MPLL am y flaenoriaeth llythrennedd yn cynnwys, 4 pwynt sef: rhan fwyaf o'r dysgwyr yn fwy annibynnol, defnydd cywir o eirfa bynciol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y mwyafrif o wersi, ac yn olaf, rhan fwyaf disgyblion yn cynnwys mwy o fanylder o fewn eu gwaith. Er mwyn cwrdd â'r MPLL nododd syniadau er mwyn gweithredu i

gynyddu'r sgiliau llythrennedd, fel enghraifft dewison nhw fydd creu templedi ffurfiau ysgrifennu, adnabod unrhyw heriau i'r disgyblion, matiau iaith a chynnal dyddiau HMS yn rhoi nhw ar y trywydd cywir i weld cynnydd yn yr ystadegau ac felly'n cyflawni'r MPLL.

Er mwyn i'r ysgol dechrau edrych ar effaith eu strategaethau gweithredu a gweld os ydyn nhw yn dechrau gwella ei flaenoriaeth, mae'r tîm CDA yn cydweithio i werthuso a rhoi manylion am eu maes blaenoriaeth benodol i'w ddatblygu. Fel awgrymodd Estyn (2020) dylai ysgolion pob hanner tymor cynnal adolygiad i weld os oes cynnydd tuag at y camau gweithredu. Ar ôl hyn, dylai diweddaru ei CDA i nodi unrhyw newid (Estyn, 2020). Yn ychwanegol i hyn, er mwyn gweld yn glir mae tystiolaeth o gynnydd mae Estyn (2020) yn nodi fel strategaeth dda yw cod lliw ar gyfer pob cam gweithredu yn goch, ambr a gwyrdd. Mae Ysgol A yn gweithredu yn ôl awgrym yma gan fod rhan ar ei CDA i werthuso yn ôl y lliwiau. Er mwyn gwneud yn siŵr fod cynnydd mae Ysgol A yn edrych nôl at ei MPLL i weld os yw wedi cyrraedd gan fydd hyn yn mesur ei ddatblygiad ond hefyd yn dangos beth fydd angen gwneud os nid yw rhan o'r MPLL wedi ei gyrraedd.

Adfyfrio a Gwerthuso

Allwn weld defnydd da o arfer yn adroddiad Estyn Ysgol A. Yn ei adroddiad dwedodd

"The school plans skilfully to ensure that pupils develop their literacy skills soundly. The requirements of the literacy frameworks have been incorporated successfully in schemes of work, where appropriate" (Estyn, 2019, t.8).

Gwelwn hyn trwy gymaint o stragaethau mae'r adran yn defnyddio er mwyn gwella sgiliau llythrennedd. Gan fod yr ysgol yn gwneud hyn, yn amlwg maen nhw yn dilyn EEF (2018) sydd wedi rhoi awgrymiadau iddyn nhw am ba fath o strategaethau bydd yn dda i wella llythrennedd.

Mae'r canllawiau wedi newid ers hyn ond mae Ysgol A dal yn defnyddio ei adroddiad o 2019 er mwyn cyfeirio nôl ato. Pe bai Ysgol A yn seilio eu canlyniadau ar adroddiad mewnol diwedd yr ysgol byddent fwy dibynadwy o weld cynnydd yn ei ddatblygiad fel ysgol. Ond wrth i Ysgol A defnyddio adroddiad cafodd ei greu 4 blwyddyn yn ôl, nid yw hyn yn dangos dibynadwyedd canlyniadau'r ysgol. Er bod Ysgol A yn defnyddio adroddiad hen Estyn, mae'r ysgol yn dda o adnabod ei heriau sydd yn codi wrth iddyn nhw geisio gwella llythrennedd.

Yn HMS Ysgol A ar 11/12/23 roedd yn seiliedig ar ysgrifennu estynedig er mwyn cael dull da i'r ysgol gyfan. Yn yr HMS yma, dechreuodd adnabod ei heriau gall codi wrth iddyn nhw geisio gwella sgiliau llythrennedd. Gallwn weld dyma Ysgol A yn defnyddio awgrym

Llywodraeth Cymru (2022) o wneud hunanfarnu er mwyn bod yn wybodus o'r hyn sydd yn gweithio ond hefyd yr heriau sydd wedi neu sydd yn gallu codi. Canlyniad o'r HMS oedd dilyn 'Self-Regulated Strategy Development' (SRSD) sy'n crynhoi ysgrifennu estynedig lawr i 6 rhan o ysgrifennu: gwybodaeth cefndir, esbonio, modelu, cofio a rhoi cefnogaeth (Graham & Perin, 2007).

Fodd bynnag, wrth i Ysgol A gwneud eu hunanfarnu sylwais nid yw'r arfarniad Ysgol A yn sôn am unrhyw wendid yn eu sgiliau llythrennedd. Felly, fel mae Llywodraeth Cymru (2022) yn gofyn, nid yw Ysgol A yn gwerthuso'n ddibynadwy er mwyn dod i gasgliad ar ba flaenoriaethau i gynnwys yn ei CDA. Yn adeiladu arno hwn, os nid yw'r arfarniad yn bwydo i mewn i'r CDA nid oes llif i'r proses, bydd well strwythur os mae cysylltiad rhwng y ddau. Pwysigrwydd y llif a'r strwythur yw helpu rhanddeiliaid deall cyfeiriad yr ysgol a'u rolau wrth gyflawni ei hamcanion (Estyn, 2017).

Fel trafodais yn gynharach, defnyddiodd Ysgol A data o ganlyniadau PISA er mwyn cynllunio ei flaenoriaethau yn ei CDA. O edrych yn fanylach, daw'n amlwg efallai nid yw canlyniadau PISA yn y ffordd gorau i fesur sgiliau llythrennedd ond yn seiliedig ysgrifennu'n ehangach. Awgryma Black & Wiliam (1998) mae asesiadau PISA wedi'u safoni, efallai na fyddant yn adlewyrchu'r amrywiaeth o dasgau ysgrifennu mewn ysgolion a sefyllfaoedd bywyd go iawn. O ganlyniad, efallai ni fydd y ffocws ar y mathau gwahanol o ysgrifennu yn adlewyrchiad manwl cywir o allu myfyrwyr i addasu eu hysgrifennu at wahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau. Pe bai Ysgol A eisiau datblygu yn bellach dylai'r ysgol mesur sgiliau llythrennedd trwy asesiadau yn y dosbarth neu bortffolios er mwyn ddarparu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o sgiliau ysgrifennu.

Mae CDA yn cwmpasu cyfnod o 3 blynedd o leiaf ac wedyn mae'r adran yn diwygio'r cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad). Felly, mae'r cynllun dal yn barhaus ac nid oes canlyniadau penodol o'i llwyddiant, ond beth welais i mae'r adran yn gweithredu'r strategaethau newydd ac o farcio tasgau asesu allwn weld niferoedd wedi codi eu marciau ar y cyfan.

Casgliad

Dysgais mai bwriad Llywodraeth Cymru (2022) yw gwella ysgolion trwy'r Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd. Wrth mi ymchwilio ac ysgrifennu'r traethawd yma, maent wedi dod yn glir pa mor bwysig yw CDY a CDA er mwyn datblygu ysgolion. Dysgais fod rhaid i fy ngwersi cynnwys y strategaethau sydd wedi ei ddarparu i ni fel staff er mwyn parhau gyda'r dull ysgol gyfan o wella eu blaenoriaethau. Bwriadaf i barhau i ddarllen

ehangach am ddatblygu sgiliau llythrennedd oherwydd mae'r sgil yma yn angenrheidiol i fy mhwnc. Ond hefyd mae diddordeb gadaf i ymchwilio yn fwy ar ba fath o ddata gall ysgolion defnyddio er mwyn mesur sgiliau ysgrifennu gan ddangosa'r ymchwil efallai nid yw canlyniadau PISA yn y ffurf orau (Black & Wiliam,1998). Wrth ysgrifennu'r traethawd yma mae'r ymchwil yn cyd-fynd â llinyn arloesi, safon gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol.

Rhestr Gyfeirnod

Black, P., & Wiliam, D. (1998) *Inside the Black Box: Raising Standards through Classroom Assessment*. London: GL Assessment.

British Educational Research Association (BERA). (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research*. London. Ar gael ar: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online>. (Cyrchwyd: 19/02/2024).

Bronfenbrenner, U. (1979) *The ecology of human development experiments by nature and design*. Massachusetts: Harvard University Press.

Chang, G. (2008) *Strategic planning in Education: Some concepts and methods*. Paris: UNESCO. Ar gael ar: <https://d1wqtxts1xzle7.cloudfront.net> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Chukwumah, O. (2015) 'Journal of Education and Practice'. *Developing Quality Strategic Plan In Secondary Schools For Successful School Improvement*, 6(21). Ar gael: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1079087.pdf> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Estyn. (2017) Involving all stakeholders in identifying priorities for school improvement. Ar gael ar: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/involving-all-stakeholders-identifying-priorities-school-improvement> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Estyn. (2019a) Changing the structure of the school council. Ar gael ar: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/changing-structure-school-council> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Estyn. (2019b) Adroddiad ar [REDACTED]. Ar gael ar: <https://www.estyn.gov.wales/provider/6704078> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Estyn. (2020) *Cynnwys pob un o'r staff yn y broses hunanwerthuso*. Ar gael ar: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cynnwys-pob-un-or-staff-yn-y-broses-hunanwerthuso> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Education Endowment Foundation. (2018) *Improving literacy in secondary schools*. Ar gael ar: https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/production/eef-guidance-reports/literacy-ks3-ks4/EEF_KS3_KS4_LITERACY_GUIDANCE.pdf?v=1709216144 (Cyrchwyd: 19/02/24).

Graham, S., & Perin, D. (2007) *Effective Strategies to Improve Writing of Adolescents in Middle and High Schools*. Carnegie Corporation of New York.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2010) *How to develop thinking and assessment for learning in the classroom*. Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/api/storage/663d00fd-9c3b-4003-9a1f-0012bad39fad/how-to-develop-thinking-and-assessment-for-learning-in-the-classroom.pdf> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Llywodraeth Cymru. (2014) *Cynlluniau datblygu ysgolion*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Llywodraeth Cymru. (2017) *Cymraeg 2050*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Llywodraeth Cymru. (2022) *Canllawiau gwella ysgolion: asesiad o'r effaith*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/7/3/1657103367/canllawiau-gwella-ysgolion-asesiad-or-effaith.pdf> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Llywodraeth Cymru. (2023a) *Cymraeg 2050: cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2023 i 2024*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-cynllun-gweithredu-strategaeth-y-gymraeg-2023-i-2024-html> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Llywodraeth Cymru. (2023b) *Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr) PISA adroddiad cenedlaethol: 2022*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/cyflawniad-disgyblion-15-mlwydd-oed-rhaglen-ryngwladol-asesu-myfyrwyr-pisa-adroddiad-cenedlaethol-2022> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Llywodraeth Cymru. (Dim dyddiad) *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd*. Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/gwerthuso-gwella-ac>

[atebolrwydd/canllawiau-gwella-ysgolion-fframwaith-ar-gyfer-gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/](#) (Cyrchwyd: 19/02/24).

Mortimore, K. (2020) *Disciplinary Literacy and Explicit Vocabulary Teaching: A whole school*. John Catt Educational Ltd.

National Literacy Trust. (Dim dyddiad) *Covid-19 and literacy*. Ar gael ar: <https://literacytrust.org.uk/information/what-is-literacy/covid-19-and-literacy/> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Shanahan, T., & Shanahan, C. (2012) 'What is Disciplinary Literacy and Why Does it Matter?' *Topics in Language Disorders*, 32(1). Ar gael ar: <https://cedar.education.ufl.edu/wp-content/uploads/2014/10/Shanahan-Shanahan-2012-What-is-Disciplinary-Literacy.pdf> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Ymchwil y Senedd. (2021) *Darllen rhwng y llinellau: Sgiliau llythrennedd plant Cymru*. Ar gael ar: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/darllen-rhwng-y-llinellau-sgiliau-llythrennedd-plant-cymru/> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Ymchwil y Senedd. (2023) *Estyn: mae ysgolion wedi ymdopi'n dda ond nid yw'r sefyllfa wedi dychwelyd yn ôl i'r arfer eto*. Ar gael ar: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/estyn-mae-ysgolion-wedi-ymdopi-n-dda-ond-nid-yw-r-sefyllfa-wedi-dychwelyd-yn-ol-i-r-arfer-eto/> (Cyrchwyd: 19/02/24).

Ysgol A. (2023) *Cynllyn Gwella Adran 2023-2024*. Adroddiad Mewnol Ysgol A. Heb ei gyhoeddi.